# Ffurflen Hawliau Pwnc Data
# a Chais am Fynediad Pwnc

I'w defnyddio wrth wneud cais am eich data personol o dan Erthygl 15 o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Nodwch natur eich cais:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gofyn am gopïau o ddata personol yr ydym yn ei gasglu, ei storio a/neu ei brosesu amdanoch; | |
| 2. | Gofyn am gywiro data personol anghywir, neu i gwblhau data personol anghyflawn; | |
| 3. | Gofyn am ddileu eich data personol (a elwir hefyd yn hawl i gael eich anghofio); | |
| 4. | Cyfyngu ar brosesu eich data personol; | |
| 5. | Gwrthwynebu prosesu eich data personol; a/neu | |
| 6. | Gofyn am gludadwyedd data er mwyn derbyn eich data personol mewn fformat a ddefnyddir yn gyffredin ac y gellir ei ddarllen gan beiriant | |

Er mwyn delio â'ch cais, mae angen prawf adnabod arnom a digon o wybodaeth i'n galluogi i ddod o hyd i'r data personol y gofynnwch amdano. Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd atom gyda phrawf o'ch hunaniaeth i'r Swyddog Diogelu Data, Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug Wrecsam LL11 2AW neu drwy e-bost dpo@glyndwr.ac.uk

Byddwn yn cydnabod bod y data wedi'i ddebyn yn ddiogel a byddwn yn ymateb o fewn 1 mis. Efallai y bydd angen i ni ymestyn yr amser ymateb am hyd at 2 fis ychwanegol os yw eich cais yn gymhleth neu os ydych yn gofyn am lawer iawn o ddata personol. Os felly, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn egluro mae angen mwy o amser arnom.

Noder, mewn rhai amgylchiadau, ni fyddem yn medru gweithredu eich cais, er enghraifft pan mae gofyn cyfreithiol i ni gadw data personol penodol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os na ellir gweithredu rhywfaint neu'r cyfan o'ch cais a'r rhesymau pam.

Nid ydym yn codi ffi am ddarparu'r data personol rydych yn gofyn amdano, ond gallwn wneud hynny pan mae gofyn i ddarparu copïau pellach o'r un data neu lle mae'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ailadroddus. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y ffi.

## **Rhan 1: Person y mae'r cais yn ymwneud ag ef (gwrthrych y data)**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | |
| **Cyfenw:** | |
| **Enwau cyntaf:** | |
| **Unrhyw enwau eraill yr ydych yn eu defnyddio y gallai helpu i chwilio:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Cod post:** | |
| **Ffôn:** | |
| **E-bost:** | |
| **Dyddiad Geni:** | |
| **Eich Rhif Adnabod Myfyriwr neu Rif Adnabod Staff:** | |
| **Rhaglen/Cwrs (os yw'n berthnasol)** | |

## **Rhan 2: Person sy'n gwneud y cais**

**Cwblhewch y canlynol:** *Fi yw/nid fi yw gwrthrych y data*

Os nad chi yw gwrthrych y data, yn ogystal â darparu eich manylion isod, rhaid i chi hefyd roi awdurdod ysgrifenedig i ni gan bwnc y data yn cadarnhau y caniateir i chi wneud y cais hwn. Os na allwch brofi i'n boddhad eich bod wedi'ch awdurdodi, ni chaiff y cais hwn ei brosesu.

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | |
| **Cyfenw:** | |
| **Enwau cyntaf:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Cod post:** | |
| **Ffôn:** | |
| **E-bost:** | |
| **Perthynas â'r gwrthrych data:** | |
| **Prawf o'r awdurdod yn amgaeedig:** | OES/NAC OES |

## Rhan 3: Prawf Adnabod

I'n helpu i sefydlu pwy ydych chi, rhaid i'ch cais fod yng nghwmni dau ddarn o adnabyddiaeth sydd rhyngddynt yn dangos yn glir eich enw, dyddiad geni a chyfeiriad cyfredol.

Amgaewch gopi o un o'r canlynol fel prawf adnabod:

- Pasbort neu gerdyn llun
- Trwydded yrru
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu
- Copi o gyfriflen banc neu fil cyfleustodau dyddiedig o fewn y tri mis diwethaf (nodwch nad yw bil ffôn symudol yn dderbyniol)

Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod ond yn anfon y wybodaeth at wrthrych y data ac nid trydydd parti. Os nad oes unrhyw un o'r rhain ar gael, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data ym Mhrifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW neu dpo@glyndwr.ac.uk am gyngor ar fathau eraill derbyniol o adnabod.

## Rhan 4: Gwybodaeth y gwnaethpwyd cais amdani

I'n helpu ni i ddelio gyda'ch cais yn gyflym ac yn effeithlon, nodwch gymaint o fanylion â phosibl am y wybodaeth rydych chi ei heisiau. Os yw'n bosibl, cyfyngwch eich cais i wasanaeth, adran, timau, unigolion neu ddigwyddiad penodol. Dylech gynnwys amserlenni, dyddiadau, enwau neu fathau o ddogfennau, unrhyw gyfeirnod ffeil ac unrhyw wybodaeth arall a allai ein galluogi i ddod o hyd i'ch data, er enghraifft, ar gyfer e-byst, enwau anfonwyr a derbynwyr a dyddiadau bras.

Byddwn yn cysylltu â chi am wybodaeth ychwanegol os yw cwmpas eich cais yn aneglur neu os nad yw'n darparu digon o wybodaeth i ni gynnal chwiliad (er enghraifft, os byddwch yn gofyn am 'yr holl wybodaeth amdanaf'). Byddwn yn dechrau prosesu eich cais am fynediad cyn gynted ag y byddwn wedi dilysu eich hunaniaeth ac mae gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddod o hyd i'ch data personol.

Os yw'r wybodaeth y gofynnwch amdani yn datgelu data personol am drydydd parti, byddwn naill ai'n gofyn am ganiatâd yr unigolyn hwnnw cyn ymateb i'ch cais, neu byddwn yn golygu data personol trydydd partïon cyn ymateb. Os na allwn ddarparu mynediad i'ch data personol oherwydd byddai datgelu yn torri hawliau a rhyddid trydydd partïon, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad hwn.

### 4.1 Os hoffech gael chwiliad mwy cyffredinol:

Lle mae gwrthrych y data **yn / arfer bod yn aelod o staff** a gyflogir gan y Brifysgol, byddwn yn chwilio'r adrannau canlynol yn awtomatig: Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Ariannol, yr Adran neu Ysgol ble rydych chi/ oeddech yn cael eich cyflogi

Ticiwch, yn y tabl isod, unrhyw adrannau/gyfadrannau eraill rydych wedi bod mewn cyswllt â nhw yr hoffech eu harchwilio ar gyfer data perthnasol.

**Os nad ydych wedi cael eich cyflogi** gan y Brifysgol, yna ticiwch unrhyw un o'r blychau yn erbyn yr Adrannau/Gwasanaethau/Cyfadran yr hoffech eu chwilio am ddata perthnasol yn y tabl ar y dudalen nesaf

| Adran | Chwilio | Adran | Chwilio |
|---|---|---|---|
| **Marchnata a Chyfathrebu** | | | |
| **Swyddfa'r Dirprwy Is-ganghellor** | | | |
| **Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr** | | | |
| **Gwasanaethau Gwybodaeth** | | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | | |
| **Ystadau a Rheoli Campws** | | | |
| **FAST** | | | |
| **FSLS** | | | |
| **Arall (byddwch mor benodol â phosibl)** | | | |

**Cadarnhewch a ydych yn dymuno derbyn eich data personol yn electronig neu ar ffurf papur.**

**4.2 Os ydych yn dewis yr opsiwn electronig**, byddwch yn cael e-bost gyda'r wybodaeth wedi'i hatodi mewn ffeil wedi'i hamgryptio. Bydd y cyfrinair i agor y ffeil hwn yn cael ei anfon atoch chi mewn ffordd wahanol, e.e. dros y ffôn neu mewn neges destun.

**4.3 Os ydych yn dewis yr opsiwn ar bapur**, bydd eich data personol yn cael ei anfon atoch drwy bost dosbarth cyntaf
cofnodedig, i'r cyfeiriad y darparoch yn Adran 1 uchod.

**4.4 Nodwch eich dewis:**

☐ E-bost gyda ffeil wedi'i hamgryptio ynghlwm

☐ Data wedi ei yrru drwy bost dosbarth cyntaf cofnodedig

## Datganiad

Rwyf i,........................................., yn tystio bod y wybodaeth a nodir ar y ffurflen hon i Brifysgol Glyndŵr yn gywir. Rwy'n deall ei bod hi'n ofynnol i'r Brifysgol gadarnhau fy hunaniaeth/hunaniaeth Gwrthrych y Data ac efallai y bydd yn ofynnol i gadw gwybodaeth fanylach i leoli'r wybodaeth gywir.

**Llofnodwyd** ........................................................................... **Dyddiad** .............................................

Gallwch lawrlwytho, cwblhau a gyrru'r ffurflen hon ynghyd â thystiolaeth o'ch hunaniaeth i'r Swyddfa Diogelu Data ym Mhrifysgol Glyndŵr, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW neu drwy e-bost at dpo@glyndwr.ac.uk

Dogfennau sydd angen eu hatodi gyda'r cais hwn:

i) Tystiolaeth o hunaniaeth Gwrthrych y Data
ii) Tystiolaeth o ganiatâd y Gwrthrych Data i ddatgelu eu data personol i drydydd parti *(os yn ofynnol fel y nodwyd uchod)*